**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**DYDD GWENER, 16EG GORFFENNAF, 2021**

**YN BRESENNOL:** Councillor T.M. Higgins [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
K.V. Broom, K. Davies, G.H. John, A.G. Morgan, B. Thomas a D.E. Williams

Mrs J. James [Aelod Pleidleisio Allanol]

**Yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.M. Jenkins - Yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
A Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
G Davies, Rheolwr Cyllid
J Tillman, Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a Chwynion
C. Powell, Prif Archwilydd
S. Nolan, Cyfrifydd Grŵp
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Nodiadau]
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cynorthwyo]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

**Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 1.05 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B.A.L. Roberts.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| **Y Cynghorydd** | **Rhif y Cofnod** | **Y Math o Fuddiant** |
|---|---|---|
| A.G. Morgan | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Cadeirydd y Llywodraethwyr mewn ysgol sy'n wynebu diffyg ariannol |
| T. Higgins | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Tŷ-croes |
| G. John | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Tre Ioan |
| E. Williams | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Llangynnwr |
| B. Thomas | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol y Felin ac Ysgol Ffederal Bryngwyn a Glanymôr |
| K. Davies | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Saron ac Ysgol Dyffryn Aman |

| | | |
|---|---|---|
| K. Broom | 8.1 – Diffygion a Gwargedion Ysgolion | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol y Strade ac Ysgol Trimsaran |

**3. PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR AR GYFER FLWYDDYN Y CYNGOR 2021/22**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd T. Higgins yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.**

**4. PENODI IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR AR GYFER FLWYDDYN Y CYNGOR 2021/22**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd G. Morgan yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.**

**5. DIWEDDARIAD CYNLLUN ARCHWILIO 2020/21 A 2021/22**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r Cynllun Archwilio Mewnol.

Adroddiad A: Adroddiadau Cynnydd ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21 a 2021/22
Adroddiad B:Crynodeb o'r Adroddiadau Terfynol wedi'u cwblhau ynghylch Systemau Ariannol Allweddol (Y Gyflogres / Y Brif System Gyfrifyddu a Rheoli'r Trysorlys)
Adroddiad C: Argymhellion Blaenoriaeth 1 mewn perthynas ag Adolygiadau o Systemau ac Archwiliadau Sefydliadau Eraill (Fframwaith Coedyddiaeth)

Cwestiynau a Sylwadau a godwyd:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch Adroddiad B mewn perthynas â'r gyflogres sy'n dangos posibilrwydd helaeth ar gyfer eleni. Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol y treuliwyd 40 niwrnod ar yr adolygiad hwn; gan helaethu'r hyn oedd o dan sylw a dod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r mesurau rheoli ar waith. Roedd y materion a nodwyd yn ymwneud â gordaliadau o ran goramser, sydd bellach wedi'u had-dalu, a gweithwyr priodol yn cael defnyddio'r system fel "Goruchwyliwr”;
- Gofynnwyd am y Brif System Gyfrifyddu, sy'n un o swyddogaethau hanfodol yr Awdurdod, a dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth fod angen diweddaru llawlyfr y gyllideb ac y bydd yn dod gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ddiweddarach;
- Gofynnwyd a oedd tystiolaeth ynghylch "nad oedd profion o sampl o 10 o drosglwyddiadau ariannol a glustnodwyd i gadarnhau cymeradwyo 3 o drosglwyddiadau ariannol, ar gael", a dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod hyn wedi'i nodi, bod pryderon wedi'u hadrodd i'r adran, bod camau'n cael eu cymryd gan dîm Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a bod systemau ar waith i oresgyn y mater. Roedd y trosglwyddiadau ariannol hyn yn benodol o fewn categorïau'r deiliaid cyllidebau ac ystyriwyd eu bod yn llai o risg;
- Roedd pryderon sylweddol ynghylch rheoli contractau o dan Adroddiad C. Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod hyn oherwydd

bod diffyg prosesau yn y meysydd hyn.  Mae adolygiad mewnol wedi'i gynnal ar yr hyn oedd angen ei roi ar waith i fynd i'r afael â'r mater a gwnaeth yr adran ragor o welliannau i'r system; erbyn hyn disgwylir i'r contractwyr gyflwyno taflenni amser llawn a thystiolaeth o beiriannau wedi'u hurio fel bod ad-daliadau'n cael eu cyfrif.  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod ceisiadau am swyddi'n cael eu sianeli drwy'r Uned Cymorth Busnes yn electronig ac yna'n cael eu dosbarthu'n unol â hynny, a'u bod yn manylu ar y gwaith sydd i'w wneud ac nad oes unrhyw waith yn dechrau cyn i Archeb Brynu ddod i law.  Gofynnodd yr Aelodau fod adolygiad archwilio mewnol dilynol yn cael ei gynnal a bod y canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;

- Gofynnwyd am gymhwysedd y tîm a osododd rubanau coch ar "goed afiach" nad ydynt yn afiach.  Cadarnhaodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol eu bod yn cael eu "clustnodi" oherwydd iechyd a diogelwch y cyhoedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIAD MEWNOL 2020/21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2020/21, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio.

Nododd y Pwyllgor fod y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol o'r farn fod gan yr Awdurdod, ar y cyfan, amgylchedd rheoli derbyniol ar waith. Ceir trefniadau llywodraethu clir sydd â chyfrifoldebau rheoli a strwythurau pwyllgorau pendant ar waith. Mae'r fframwaith rheoli yn gadarn ar y cyfan ac yn cael ei weithredu'n eithaf cyson.  Mae gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac mae wedi datblygu polisïau a chymeradwyo Rheolau Gweithdrefn Ariannol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r holl staff ac aelodau.  O ganlyniad, roedd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn fodlon fod gwaith sicrwydd digonol wedi ei gyflawni i'w galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod.

Lle bo gwendidau wedi eu nodi drwy adolygiadau archwilio mewnol, gwnaed gwaith gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau unioni priodol ac amserlen ar gyfer gwella.

Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r datganiad cyfrifon blynyddol gan nodi i ba raddau y cydymffurfir ag egwyddorion ac arferion llywodraethu da, gan gynnwys sut y mae effeithiolrwydd y gwaith llywodraethu wedi'i fonitro ac yn nodi'r camau gweithredu ar gyfer newidiadau arfaethedig yn y flwyddyn i ddod. Anfonir copi at bob aelod fel y gellir mynegi unrhyw bryderon.

Codwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd a oedd cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol yn Nhabl 1:  Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth fod Dadansoddiad o'r Argymhellion ar gael ac y byddai'n cael ei rannu â'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r gofynion statudol, fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 7. BLAENRHAGLEN WAITH

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith flynyddol a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'w hystyried yn ystod cylch cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio 2021/22.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2021/22.**

## 8. ADRODDIADAU CYNNYDD

### 8.1. DIFFYGION A GWARGEDAU YSGOLION

[NODER: Roedd y Cynghorwyr A.G. Morgan, T. Higgins, G. John, E. Williams, B. Thomas, K. Davies a K. Broom wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a bu iddynt aros yn y cyfarfod tra oedd dan sylw].

Bu i'r Pwyllgor ystyried yr Adroddiad Cynnydd yn ymwneud â Diffygion a Gwargedion Ysgolion a oedd yn manylu ar y wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth a sefyllfa'r Awdurdod Lleol o ran ysgolion a gynhelir sy'n wynebu neu'n rhagweld diffyg yn y gyllideb. Mae'n dilyn cyflwyniad blaenorol a wnaed i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad yn ystyried y gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli diffygion a gwargedion o ran cyllidebau Ysgolion er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu cyflwyno a'u hadrodd yn brydlon, ac yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a'r Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion.

Cydnabyddir bod y 17 mis diwethaf wedi cael effaith sylweddol ar ysgolion ac ar wasanaethau ledled Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad, mae cyllidebau ysgolion wedi'u heffeithio'n sylweddol ac amharwyd yn ddifrifol ar allu'r Tîm Cyllid, gyda chymorth gan y Tîm Gwella Ysgolion, i gefnogi a herio ysgolion.

Codwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch un ysgol yn benodol a oedd yn elfen sylweddol o'r diffyg a gofynnwyd a ellir rhannu hynny. Dywedwyd bod gan yr ysgol dan sylw dipyn llai o ddiffyg yn ystod y flwyddyn honno a'i bod yn rhagweld y bydd o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, mae ysgol uwchradd arall yn wynebu pwysau ariannol sylweddol oherwydd bod nifer y disgyblion yn cwympo;
- Holwyd ynghylch effaith gweddill yr ysgol ar y cronfeydd corfforaethol wrth gefn. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp fod gweddillau ar gael fel y gallant ddefnyddio'r cyllid neu gynllunio ar gyfer adfer diffyg ariannol dros nifer o flynyddoedd ac ychwanegodd fod cronfeydd wrth gefn ysgolion ar wahân i gronfeydd corfforaethol wrth gefn ac na ellir eu defnyddio mewn mannau eraill gan eu bod yn gysylltiedig â'r ysgolion;
- O ran y trosiant mewn 3 blynedd ariannol, roedd diffyg net o £393,000 yn 2018/19 gan gynyddu i £2m yn 2019/20 gyda thanwariant o £9m yn 2020/21 gan roi gwarged net o £7m. Dywedodd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant

fod y gweddillau dros ben yn bennaf oherwydd bod ysgolion wedi'u cau neu wedi lleihau'r adegau roeddynt ar agor, ynghyd â chyfleustodau, adnoddau ac arbedion gwasanaeth cyflenwi ynghyd â grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru;

- Gofynnwyd am yr heriau a guddiwyd gan arian ychwanegol yn dod i mewn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Byddai'n fuddiol pe gellid cael adroddiad tebyg ymhen blwyddyn gan fod heriau ariannol yn parhau mewn rhai ysgolion (rhai bach yn bennaf). Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd y newid o ran gweddillau ariannol ysgolion yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiad Cynnydd ynghylch Diffygion a Gwargedion Ysgolion.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWRTH-DWYLL A GWRTH-LYGREDD 2020-21

Bu i'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Atal Twyll ac Arferion Llwgr Blynyddol 2020/21 sy'n rhoi crynodeb o weithgareddau swyddogaeth Atal Twyll y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Mae'n nodi bod gan Gyngor Sir Caerfyrddin ymagwedd dim goddefgarwch tuag at bob math o dwyll, arferion llwgr a dwyn, yn y cyngor ac o ffynonellau allanol. Cydnabyddir y gall twyll:

- danseilio safonau'r gwasanaethau cyhoeddus y mae’r Cyngor yn ceisio eu cyrraedd;
- lleihau’r adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael i breswylwyr Sir Gaerfyrddin; ac
- arwain at ganlyniadau o bwys sy’n lleihau hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

Mae Llywodraethu Corfforaethol da yn mynnu bod yn rhaid i’r Awdurdod ddangos yn glir ei fod wedi ymrwymo i fynd i’r afael â thwyll ac arferion llwgr ac y bydd yn ymdrin yn gyfartal â chyflawnwyr o’r tu mewn (aelodau a gweithwyr) ac o’r tu allan i’r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll gyda'r Heddlu wedi'u cynnal gydag aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r staff, gan gynnwys y Tîm Archwilio Mewnol. Mae tudalen bwrpasol ar gael ar y Fewnrwyd mewn perthynas â thwyll ac ar hyn o bryd mae'r tîm yn edrych ar fodiwl e-ddysgu i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg y staff.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), lle mae data, gan gynnwys data ynghylch y Gyflogres, Credydwyr ac ati, yn cael ei baru'n genedlaethol bob 2 flynedd i nodi twyll unigol posibl.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Byddai'n arfer da gweld cymhariaeth o flwyddyn flaenorol bob amser. Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Atal Twyll ac Arferion Llwgr Blynyddol 2020/21.**

## 10. POLISI CWYNION

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Polisi Cwynion sy'n nodi bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i Awdurdod Safonau Cwynion wedi lansio Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol newydd yn ffurfiol ar 30 Medi 2020 (ynghyd â'r canllawiau cysylltiedig):

https://www.ombwdsmon.cymru/awdurdod-safonau-cwynion/

Rhoddwyd 6 mis i awdurdodau lleol o'r dyddiad uchod i weithredu'r Polisi/y broses newydd hon a chyflwyno dogfen wedi'i diweddaru i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cydymffurfiodd y Cyngor â'r dyddiad cau hwn a chymeradwywyd Polisi Cwynion newydd gan y Bwrdd Gweithredol ar 22 Mawrth 2021. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd y polisi i'r Awdurdod Safonau Cwynion er mwyn cadarnhau cydymffurfio â'r gofynion. Yna ysgrifennodd Pennaeth yr Awdurdod Safonau Cwynion at y Prif Weithredwr a'r Arweinydd ar 26 Mai 2021 yn cadarnhau bod Polisi Cwynion y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion.

Nid yw'r polisi newydd yn gwyro'n sylweddol oddi wrth ein Gweithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth flaenorol a'n prosesau o ran ymdrin â chwynion. Serch hynny, mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Ymrwymiad i ad-dalu achwynwyr mewn rhai amgylchiadau – yn benodol, lle bu'n rhaid i berson dalu am wasanaeth y dylai'r Cyngor fod wedi'i ddarparu. Gallai hyn gael goblygiadau ariannol mewn achosion lle gallai hyn godi, ond mae'n anodd mesur hyn.
- Gofyniad i gyflwyno gwell adroddiadau;
- Ymrwymiad i roi gwybod i uwch-reolwyr am bob cwyn 'ddifrifol';
- Nodir yn y ddogfen ganllaw y dylai'r cwynion na ellir eu datrys yng Ngham 1 (ymateb anffurfiol) o fewn 10 *niwrnod gwaith* symud ymlaen i Gam 2. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd a fyddai'r Ombwdsmon yn gorfodi hyn yn llym, o ystyried geiriad y canllawiau. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu.

Mae trefniadau i weithredu'r gofynion hyn yn mynd rhagddynt.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Polisi Cwynion canlynol.**

## 11. YSTYRIED Y DOGFENNAU CANLYNOL PARATOWYD GAN ARCHWILIO CYMRU:-

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Jason Garcia o Archwilio Cymru

### 11.1. RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Waith Archwilio Cymru.

Cwestiynau a sylwadau a godwyd:-

- Gofynnwyd a yw'r adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yn Adolygiad Cymru

Gyfan neu'n benodol i Sir Gaerfyrddin? Cadarnhaodd Archwilio Cymru mai gwaith lleol i Sir Gaerfyrddin yw hwn a bod asesiad risg yn cael ei gynnal yn fewnol a rhaglen waith yn cael ei datblygu sy'n parhau i nodi gwaith yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Archwilio Cymru yn cael ei derbyn.**

## 12. DATGANIAD CYFRIFON CYNGOR SIR GAERFYRDDIN 2020/21

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd 2018), derbyniodd y Pwyllgor i'w gymeradwyo Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 o ran Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y Datganiad yn dwyn ynghyd holl drafodion ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn, a hefyd roedd yn rhoi manylion asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2021.

Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cadw at gyllideb gwariant net cronfa gyffredinol y Cyngor yn ystod 2020/21.

O ganlyniad i gyllid grant ychwanegol sylweddol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn, ynghyd â chostau ychwanegol oedd yn gysylltiedig â COVID 19 ac incwm a gollwyd yn cael ei ad-dalu i raddau helaeth o dan gynllun caledi Llywodraeth Cymru; o ganlyniad i wasanaethau'n cael eu hoedi neu eu lleihau oherwydd y cyfyngiadau symud ac o ganlyniad i swyddi gwag yn ystod y flwyddyn, cafwyd sefyllfa alldro sydd wedi caniatáu i'r Awdurdod drosglwyddo £814,000 i'w gronfeydd cyffredinol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, gwnaed trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi fel a ganlyn:-

- Y Gronfa Ymddeol Gorfforaethol
- Y Gronfa Datblygiadau Mawr
- Cyllid cyfalaf Rhaglen Moderneiddio Addysg
- Cronfa wrth gefn y Fargen Ddinesig

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r symudiadau hyn yn ôl-weithredol a chymeradwyo creu cronfeydd wrth gefn ar gyfer Caledi COVID-19, Adfer Economaidd, Costau Etholiadol y Cyngor Sir, Canolfan Ailgylchu Nantycaws, Cynllun Cynaliadwyedd HWB Ysgolion a Threfniadaeth Ysgolion.

Roedd llif ychwanegol sylweddol o gyllid gyda chymorth Llywodraeth Cymru o ran darparu ar gyfer gwariant a hynny nid yn unig i systemau ond hefyd i wneud taliadau i fusnesau ledled y sir. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth drwy nifer o ddulliau gan gynnwys £23m ar wariant cyffredinol a £10m ar golli incwm.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 bod Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2020/21 yn cael eu derbyn;**

**12.2 Cymeradwyo'n ôl-weithredol y trosglwyddiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac iddynt. Yn enwedig y trosglwyddiadau i:**

- **Y Gronfa Ymddeol Gorfforaethol**
- **Y Gronfa Datblygiadau Mawr**
- **Cyllid Cyfalaf Rhaglen Moderneiddio Addysg**
- **Y Fargen Ddinesig**

**12.3 Cymeradwyo'r cynllun i sefydlu'r cronfeydd wrth gefn canlynol:**

- **Caledi yn sgil Covid-19**
- **Adferiad Economaidd**
- **Costau Etholiadol y Cyngor Sir**
- **Canolfan Ailgylchu Nantycaws**
- **Cynllun Cynaliadwyedd HWB Ysgolion**
- **Cronfa Trefniadaeth Ysgolion**

## 13. DATGANIAD ARIANNOL AWDURDOD HARBWR PORTH TYWYN 2020-21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Ariannol Harbwr Porth Tywyn 2020-21, a luniwyd yn unol â Deddf Harbyrau 1964, a nodai ei bod yn ofynnol i bob Awdurdod Harbwr Statudol lunio datganiad blynyddol o gyfrifon ynghylch gweithgareddau'r harbwr.

Roedd y cyfrifon ar ffurf cyfrif incwm a gwariant blynyddol ar wahân a datganiad ynghylch gweddillau.

O 1 Ebrill 2018 ymlaen, roedd yr Awdurdod wedi rhoi prydles hirdymor i The Marine & Property Group Ltd, a gymerodd gyfrifoldeb dros gynnal a rheoli Harbwr Porth Tywyn ac o ganlyniad roedd llawer llai o weithgaredd ar y datganiad.

Cost net gweithgareddau'r harbwr yn 2020/21 oedd £803,000 (2019-20 £76,000) ac roedd yr holl weithgareddau'n cael eu cyllido'n llawn gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd yr asedau sefydlog a ddelir ar 31 Mawrth 2020 yn dod i gyfanswm o £925,000. Roedd cynnydd o £727,000 yn y gost o flwyddyn i flwyddyn yn bennaf yn ymwneud â chynnydd o £731,000 mewn gwariant cyfalaf, hynny yw arian a wariwyd ar waliau'r harbwr, a gostyngiad o £16,000 mewn costau gweithredu wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o £12,000 mewn incwm.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Porth Tywyn 2020-21.**

**14. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Côd Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Cyngor ynghyd â'r modd y mae'n atebol i'w ddinasyddion ac yn ymgysylltu â nhw.

Mae'r Côd Llywodraethu Corfforaethol yn nodi dull Cyngor Sir Caerfyrddin o gyflawni a chynnal llywodraethu corfforaethol da. Mae'r Côd hwn wedi'i ddiweddaru a'i adolygu gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i gydnabod polisïau a phrosesau sy'n unol ag egwyddorion Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) sef 'Delivering Good Governance in Local Government' (Nodiadau Esboniadol i Awdurdodau Cymru, Argraffiad 2016 – Cyhoeddwyd ym mis Medi, 2016). Mae'r fframwaith hwn yn clustnodi 7 prif egwyddor llywodraethu da sy'n ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad y Côd Llywodraethu Corfforaethol.**

**15. COFNODION GRWPIAU PERTHNASOL I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO:-**

**15.1. GRWP LLYWIO RHEOLI RISG – 29AIN EBRILL 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021.**

**15.2. PANEL GRANTIAU – 26AIN CHWEFROR 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Panel Grantiau a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2021.**

**15.3. GRWP LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL – 16EG CHWEFROR A 30AIN MAWRTH 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Chwefror a 30 Mawrth 2021.**

**16. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR 26AIN MAWRTH 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2021 gan eu bod yn gywir.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**